

Iechyd a Lles

Er bod ffyniant yn Rhuddlan roedd yna hefyd dlodi ac amddifadedd. Wynebai'r tlawd, yr henoed, y rhai na allent weithio, plant amddifad a chardotwyr fynediad i Dloty Undeb Llanelwy a ddaeth yn ysbyty yn 1948 (Ysbyty HM Stanley) er bod yna adain glafdy i drigolion gwael ac Ysbyty Clefydau Heintus Llanelwy ar yr un safle o 1910. Heb fawr syndod fe anwyd nifer o fabanod yno a dangosir yn y cofnodion bod 85 o fabanod wedi eu geni rhwng 1912 a 1921, 6 wedi'u geni i ferched priod.



Ysbyty H M Stanley cyn iddi gau

Yn 1914 roedd yna 80 o breswylwyr yn cynnwys 30 o blant, a rhoddwyd cysur i tua 20 o gardotwyr yn y bythynnod ar y tir bob wythnos. Ym mis Rhagfyr y flwyddyn honno gofynnodd gŵr gweddw o Ruddlan i'r tloty dderbyn ei bedwar plentyn nes iddo ddod o hyd i rywun i'w gwarchod oherwydd na allai eu gadael i fynd allan i weithio ac nid oedd ganddynt dull arall o gymorth. Gwrthodwyd y cais gyda'r Is Gadeirydd yn tynnu sylw bod "gan Fwrdd y Gwarchodwyr ormod o blant ar eu dwylo oherwydd iddynt ymddwyn yn garedig. Roedd rhieni yn dod a'u plant yno ac yna yn aml yn rhedeg i ffwrdd", ond gofynnodd aelod, gwraig deimladwy i'r cais iddo gael ei gyfeirio at y Bwrdd Llywodraeth Leol ac ildiodd y Bwrdd. Cyfrifoldeb pob plwyf oedd cyllid y Tloty a chyfraniad Rhuddlan am 1914 oedd £826 ond anfonodd Eglwysi Rhuddlan gasgliadau gwasanaethau'r Sul yn rheolaidd i gynorthwyo'r cyllid ac anfonodd pobol garedig Rhuddlan roddion i gefnogi addysg a hyfforddiant er mwyn galluogi'r preswylwyr i adael a gweithio yn y gymdeithas.

Heb Wasanaeth Iechyd Gwladol roedd llawer o gleifion yn gorfod talu am ymgynghoriad meddygol gyda meddygon yn Llanelwy, sef Dr Edward Fortrey George Turnbull Heap, llawfeddyg o Bendinas, Ffordd Dinbych, cofrestrwyd 1905, LRCP, MRCS, neu Dr Edward Henry Lloyd, MRCS, LSA, MD (Durham) 1900 meddyg a llawfeddyg, Swyddog Meddygol i CDW Lanelwy, Arsyllfa, Stryd Fawr, cofrestrwyd 1884, hefyd yn hwyrach ei ferch Katherine (Rene) yn 1919 a gymhwysodd fel meddyg a phriodi i fod yn Dr Quinby. Yn ddiweddarach agorodd feddygfa yn Rhuddlan. Roedd plant yn ffodus oherwydd bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal yn yr ysgol sef archwiliadau iechyd, deintyddol a llygaid ond gallai oedolion, yn ystod amser caled, werthu eu dannedd am 18s - £1 am blât aur cyfan neu 5s -10s am fetalau eraill! Roedd meddyginiaethau dros y cownter yn boblogaidd iawn am resymau amlwg ac ysgrifennodd Mr Salisbury, Machine Cottage, Stryd Fawr i bapur newydd lleol yn cymeradwyo pils Doan (sy'n cynnwys cyffur math asbirin) am ryddhad i'w gryd cymalau.

Cynhaliwyd triniaeth ysbyty yn Ysbyty Brenhinol Alexandra (YBA), Rhyl, Ysbyty Dinbych (YD) ac Ysbyty Gogledd Cymru (YGC) Dinbych (a elwir yn aml yn Wallgofdy Meddwl Dinbych). Unwaith eto roedd y rhain yn cael eu hariannu gan gyrrff cyhoeddus ac elusennol yn ogystal â rhoddion unigol hael ac mae'n glod mawr fod y cyfraniadau hyn wedi parhau drwy gydol y rhyfel.

Yn ystod Nadolig 1915 roedd YBA yn gorlifo hefo rhoddion o addurniadau, ffrwythau, cig a dofednod, cacennau, cracers, tegantau, llyfrau ac anrhegion oddi wrth gymwynaswyr lleol. Rhoddwyd rhoddion o sawl mil o bunnoedd i ariannu “crud” er côf am y milwyr a laddwyd yn y rhyfel, megis £4000 yn 1915 gan Mr a Mrs Hayes o Woking er côf am eu mab, Ail Is-gapten H V Hayes a laddwyd yn Ffrainc yn 19 ml oed. Yn 1915, fel roedd milwyr a anafwyd yn gorlifo i mewn i'r wlad, ymatebodd YBA trwy ddyrannu 12 o welyau argyfwng ar gyfer derbyn y clwyfedig (gallai'r dynion darddu o unrhyw ran o Brydain neu o wledydd y cynghreiriaid ac fe'u hanfonwyd i unrhyw wely oedd ar gael). Ond yn 1918 cafodd y gwâlau eu hailldyrannu i'r Cyd- bwyllgor Anabledd Gogledd Cymru ar gyfer asesu a rheoli'r rhai a analluogwyd gan y rhyfel. Mae'r un peth yn berthnasol i'r 10 lle a gyflenwyd gan Ysbyty Dinbych. Roedd effeithiau'r rhyfel cynnar yn yr awyr yn amlwg yn 1916 pan gafodd YBA ei yswirio am £15,000 yn erbyn bomio ac ymosodiad o'r awyr, a chafodd y goleuadau a'r ffenestri eu cuddio gyda phaent neu blacowt. Yn anffodus cafodd y 12 nyrs o YBA a oedd yn gofalu am bersonél milwrol a anafwyd (6 ohonynt oedd ar y ffrynt) eu trin yn wael yn 1916 pan ostyngwyd eu cyflog o 2 i 1½ gini'r mis gan nad oeddent yn gweithio yn YBA.

Chwaraeodd Ysbyty Gogledd Cymru (YGC) Dinbych, rôl ddiddorol yn y rhyfel. Ystyriwyd eu bod ar y blaen yn eu triniaeth seiciatrig a hefyd roeddynt yn darparu 1,000 o wâlau ac yn derbyn cleifion o ardal eang, dan barhau i weithio er gwaethaf colli 20% o'u staff trwy iddynt ymrestru. Ychydig iawn o gleifion milwrol oedd ar ddechrau'r rhyfel ac eithrio dau a ddatganwyd yn wallgof ac ychydig o garcharorion y gelyn a gafodd eu trin yn llwyddiannus. Yn ddiddorol, aeth derbyniadau i lawr ar y dechrau wrth i bobl lleol ddod o hyd i swyddi a adawyd yn wag gan y gwirfoddolwyr. Cafodd y cleifion eu bwydo'n dda gydag uwd, bara menyn a phaned o de i frecwast, a chig, llysiau, tatws a bara i ginio ar wahân i gleifion epileptig a dderbyniodd ymborth llysiuol. I raddau helaeth roedd y bwyd yn cael ei gyflenwi gan fferm a gerddi'r ysbyty yn unol â rheolau'r Rheolwr Bwyd Cenedlaethol. Nid oedd bywyd yn y sefydliad mor ddifrifol ag y gellir dychmygu gyda'r cleifion yn helpu yn yr ardd ac yn y gweithdai a chael eu diddanu gan gefnogwyr lleol, bandiau catrodol a grwpiau theatr, tra bod rhodd o 19 o ramoffonau i'r wardiau wedi codi calon. Wrth i amser fynd heibio cynyddodd y cleifion milwrol ac ar y cyfan roeddynt yn ymateb yn dda. Yn y lle cyntaf cawsant eu trin fel cleifion 'tlawd' ond yna cawsant eu hailddosbarthu fel cleifion 'preifat', cawsant fwyd gwell, ni chawsant eu 'hardystio', cawsant dderbyn triniaeth brydlon ac yn bwysig nid oedd stigma ynghlwm wrthynt. Cafwyd un cynnydd sylweddol yn nifer y derbyniadau oddi wrth y boblogaeth yn gyffredinol, sef achosion “gofid rhyfel” a oedd yn effeithio ar wragedd a mamau a oedd yn cael trafferth i ymdopi a galar neu ofn am eu hanwyliaid.



Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych cyn iddi gau

Ble'r aeth y miloedd eraill a oedd wedi eu hanafu? Sefydlodd Y Groes Goch Brydeinig ysbytai cynorthwyol mewn neuaddau a thai o gwmpas y wlad, er enghraifft Neuadd Morfa yn Y Rhyl (a symudodd i Neuadd Leeswood, Yr Wyddgrug yn 1915), a Neuadd Llanbedr ger Rhuthun. Agorodd Ysbyty Brenin Edward VII yn Llangwyfan yn 1917 gan roi triniaeth i filwyr gyda thwbercwlosis a oedd yn gyffredin yn eu mysg. Fodd bynnag cafodd y mwyafrif eu trin yn yr Ysbyty Milwrol (890 o welyau) yng Ngwersyll Cinmel, oddi wrth y boblogaeth gyffredin.